Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# SWYDDOG CEFNOGI PROSIECTAU

**Swyddfa Ardal – Y Rhyl**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos**
**GTaAGC Graddfa 05 £28,163 to £30,060 y flwyddyn**

Rydym eisiau penodi Swyddog Cefnogi Prosiectau i ymuno â'r Adran Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol yn y Rhyl.

Byddwch yn darparu cefnogaeth prosiect i brosiectau presennol ac yn y dyfodol ar draws Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac yn cynnig cyngor i'r Rheolwr Prosiect ynghylch y cydrannau rheoli prosiect y dylid eu mabwysiadu i sicrhau bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu cyflawni.

Mae hyn yn cynnwys ateb ymholiadau gan Reolwyr Prosiect, a allai fod yn arbenigwyr maes busnes ond nad oes ganddynt brofiad blaenorol neu wybodaeth am fethodoleg rheoli prosiectau, a chynnig cyngor am gynlluniau, rheolaethau a chamau er enghraifft. Byddwch yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd mewnol ac allanol, yn ôl yr angen, cymryd nodiadau a pharatoi agendâu, diweddaru logiau risg a materion a chynnal ffeiliau cofnodion electronig at ddibenion archwilio.

Bydd gofyn i chi fod yn gyfathrebwr effeithiol gyda sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid da, profiad o drefnu a chefnogi cyfarfodydd a pharodrwydd i helpu eraill. Bydd gennych sgiliau trefnu da i reoli eich llwyth gwaith a chadw at derfynau amser, bydd angen i chi fod yn hyblyg ac yn barod i addasu i newid er mwyn delio â cheisiadau wrth iddyn nhw godi a bydd angen i chi allu gweithio'n annibynnol gan ddefnyddio eich menter eich hun. Yn ddelfrydol bydd gennych y gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn rhugl yn Gymraeg, ond byddwn yn ystyried ceisiadau gan unigolion sy'n ymrwymo i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

Mae'r tîm wedi'u lleoli yn y Rhyl ond bydd y rôl yn rhoi cefnogaeth reolaidd i'r Timau ar draws Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac felly efallai y bydd angen rhywfaint o deithio ar draws Gogledd Cymru.

Sylwch fod y swydd hon yn destun Gwiriad DBS a geirdaon boddhaol. Os derbynnir datgeliad cadarnhaol (wedi darfod neu heb ddarfod), bydd dull seiliedig ar risg i reoli'r wybodaeth yn cael ei fabwysiadu gan y Gwasanaeth ac yna gwneir penderfyniad rhesymol a chymesur ynghylch y gweithiwr presennol neu ddarpar weithiwr. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma.

I gael rhagor o fanylion am y rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: DesgAD@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 12.00, 13.05.2025**
Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau
PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.